**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-873
Ein cyf/Our ref EM/05797/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad dros Aberconwy
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

senedddeisebau@cynulliad.cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-05-873 – 'Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru'.

Mae sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cynnig cyfle i gysoni nifer o agweddau o'r rhaglen Dysgu Cymraeg, gan gynnwys ffioedd dysgu. Mae'r trefniadau newydd o £90 fesul cwrs prif ffrwd eisoes ar waith ac yn llwyddo i sicrhau cysondeb a thegwch i bob dysgwr ar draws Cymru.

Er nad yw cynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim i oedolion yn un o'r 10 newid trawsnewidiol a nodir yn 'Cymraeg 2050', mae'r Ganolfan wedi gweithio'n agos iawn gyda'r darparwyr i greu Cynllun Cymraeg i Bawb. Mae'r cynllun yn cynnig yr un cyfleoedd i alluogi oedolion i ddysgu p'un ai eu bod wedi colli'r Gymraeg ers gadael ysgol, angen gloywi er mwyn ennyn hyder, neu efallai yn ddysgwyr newydd.

Mae strwythur cyson o ran gostyngiadau ar gyfer ffioedd dysgu yn ei le, gan gynnwys gostyngiad o 40% i fyfyrwyr ac unigolion ar fudd-daliadau, a gostyngiad o hyd at 100% (h.y. cynnig cyrsiau rhad ac am ddim) ar gyfer rhai cyrsiau.

Mae gan y Ganolfan Gronfa Ariannol Wrth Gefn sy'n cynnig cymorth ariannol i ddysgwyr Cymraeg. Mae'n cynnig cymorth tuag at amrywiaeth o gostau, gan gynnwys costau gofal plant a chostau teithio, er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag mynd ati i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddysgu. Mae’r Ganolfan hefyd wedi buddsoddi mewn datblygu darpariaeth sy’n gwneud dysgu Cymraeg yn hwylus i mwy o bobl, gan gynnwys mwy o gyrsiau dysgu cyfunol a darpariaeth ar-lein sy’n galluogi pobl i ddysgu ar unrhyw adeg gyda llai o angen i deithio.

Gan fod y Gymraeg bellach yn bwnc gorfodol i blant oedran ysgol, bydd gan bob dysgwr rywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg erbyn iddynt adael y system addysg yn 16 oed, gan roi sylfaen da iddynt adeiladu arni pe dymunent.

Hyderaf fod y wybodaeth uchod yn egluro’r camau sydd ar waith i sicrhau bod dysgu Cymraeg yn fforddiadwy i gymaint o bobl ag sy’n bosib.

Yn Gywir,

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language